

Yn y Rhifyn Hwn:

- Gwobrau'r IHT • Efelychu Sgiliau Gyrru • Gyrwyr heb Yswiriant • Gyrru dan Ddylanwad Cyffuriau • Cynllun Graddio Seddau Plant • Gwrthdrawiadau sy'n cynnwys Gyrwyr Hŷn • Diogelwch Plant ar Ddreifiau • Llawlyfr ynghylch Gyrru wrth eich Gwaith • Technoleg e-Alw yn-y-Car

Gwobrau'r Sefydliad Priffyrdd a Chludiant (yr IHT) 2009

Mae Gwobr Diogelwch ar y Ffyrdd yr IHT/Atkins wedi'i rhoi i Gyngor Sir Caerfyrddin am eu Prosiect Diogelwch y Gymuned yn Ysgol Gynradd Carwe.

Mae'r ysgol wedi creu amgylchedd mwy diogel i'w disgyblion a'r gymuned leol ac wedi dangos sut y gall meddwl yn arloesol ac yn greadigol gwtogi ar beryglon bywyd bob-dydd a gostwng nifer y plant a gaiff eu hanafu neu eu lladd. Mae'r ysgol wedi bod wrthi'n cynnwys disgyblion a rhieni mewn mentrau fel Kerbcraft, Cyclecraft, bysiau cerdded ac addysg gyffredinol am ddiogelwch ar y ffyrdd.



Teimlai'r beirniaid i lwyddiant y prosiect ddeillio o'r ymagwedd gymunedol at ddeall pryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd a rhoi sylw iddynt yn y cynllun am resymau diogelwch a sicrhau manteision ehangach fel cyrraedd yr ysgol yn brydlon, darparu gweithgarwch corfforol a chymdeithasol i'r plant, a gwella holl amgylchedd y pentref.

Efelychu Sgiliau Gyrru



Heddlu De Cymru yw'r un cyntaf ym Mhrydain i ddefnyddio efelychiadur cyfrifiadurol i addysgu sgiliau gyrru i'w swyddogion. Wrth ddadorchuddio'r offer, dywedodd y Rhingyll Gareth Morgan y bydd yn arbed bywydau.

"It's Y ffaith drist ac anochel amdani," meddai, "yw y caiff bywydau eu rhoi mewn perygl wrth i ni geisio dal gyrwyr sy'n ffoi, a hyd yn oed wrth hyfforddi gyrwyr yr heddlu. Drwy ddefnyddio'r efelychiadur i hyfforddi pobl, fe gwtogwn ni ar nifer yr asesiadau y bydd rhaid eu gwneud ar y ffordd a sicrhau hefyd fod ein gyrwyr wedi'u paratoi'n well ar gyfer y sefyllfaoedd y byddan nhw'n eu hwynebu am eu bod eisoes wedi delio â nhw yn yr efelychiadur."

Sgt Mae'r Rhingyll Morgan a'r tîm yn ysgol yrru Heddlu'r De wedi datblygu'r system dros y flwyddyn ddiwethaf, a'i chartref yw uned ddiwydiannol ym Mae Caerdydd. Mae'r gwaith wedi ennill Gwobr y Frenhines am Arloesi ym maes Hyfforddi Datblygu'r Heddlu i'r Rhingyll Morgan a'r Arolygydd Mark Brier. Yr amcangyfrif yw y bydd yr efelychiadur yn cwtogi 20%-25% ar yr amser a dreulir ar ffyrdd cyhoeddus a hefyd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £120,000 y flwyddyn i'r heddlu. Ac, yn wahanol i dywydd cyfnewidiol Cymru, gall y peiriant roi prawf ar yrwyr o dan amrywiaeth o amgylchiadau, gan gynnwys glaw ac eira.

"Gallwn ni hefyd raglennu'r cyfrifiadur i efelychu'r profiad o yrru dan ddylanwad diod," meddai'r Rhingyll Morgan. "Bydd y car yn drifftio a'r sgrin yn mynd yn fwy niwlog. Yn naturiol, bydd y gyrrwr yn arafu wrth geisio rheoli'r car, sef yn union beth fydd gyrwyr sydd wedi yfed yn ei wneud. Gall unrhyw swyddog traffig ddweud wrthoch chi ei bod hi'n hawdd gweld pa yrwyr sydd wedi bod yn yfed am eu bod nhw bob amser yn gyrru'n araf ac yn drifftio o un ochr i'r ffordd i'r llall."

Dywedodd y gall cymwysiadau niferus y cyfrifiadur, nad yw llawer ohonynt hyd yn oed wedi'u defnyddio eto, yn golygu y gallai hefyd gael ei ddefnyddio yn y pen draw i ailhyfforddi gyrwyr sydd wedi'u gwahardd ac i helpu gyrwyr ifanc a grwpiau bregus eraill sy'n dysgu ymdopi â gofynion gyrru yn y byd sydd ohoni.

"Go brin ein bod ni wedi crafu'r wyneb o ran ei bosibiliadau," meddai'r Rhingyll Morgan.

Mae'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd wedi cadarnhau cynlluniau i gwtogi ar y peryglon a achosir gan yrwyr sydd heb yswiriant.



Bydd y mesurau newydd yn ei gwneud hi'n drosedd cadw cerbyd heb yswiriant – yn hytrach na dim ond gyrru heb yswiriant – ac yn haws dal gyrwyr sydd heb yswiriant a'u cadw oddi ar y ffyrdd.

Bob blwyddyn," meddai Paul Clark, "bydd gyrwyr sydd heb yswiriant a rhai na allwn ddod o hyd iddyn nhw yn lladd 160 o bobl ac yn anafu 23,000, a chost gyrru heb yswiriant i yrwyr sy'n parchu'r gyfraith yw dros £400m mewn taliadau premiwm ychwanegol. Rydyn ni eisoes wedi cymryd camau i orfodi'r lleiafrif anghyfrifol hwnnw i beidio â gyrru – mae cynnydd ym mhwerau'r heddlu'n golygu y caiff dros 400 o gerbydau di-yswiriant eu cipio bob dydd. Ond bydd y mesurau newydd a llym hyn yn dal unrhyw un sy'n cadw car heb yswiriant: fydd ganddyn nhw ddim unman i guddio."

O dan y drefn newydd:

- Bydd y DVLA yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant yswiriant i adnabod cerbydau sydd heb eu hyswiro;
- Caiff modurwyr lythyr i ddweud nad oes yswiriant ar eu cerbyd, i bob golwg, ac i'w rhybuddio y cânt ddirwy oni wnânt ei yswiro cyn pen hyn-a-hyn o amser;
- Os bydd y ceidwad yn methu ag yswiro'r cerbyd, caiff ddirwy o £100;
- Os bydd y cerbyd yn dal i fod heb ei yswiro – p'un a yw'r ddirwy wedi'i thalu neu beidio – gallai gael ei gipio a'i ddinistrio.

Ni fydd gofyn yswiro cerbyd sydd â Hysbysiad Oddi-ar-y-Ffordd swyddogol (SORN).

Bydd gyrru heb yswiriant yn ychwanegu rhyw £30 y flwyddyn at bremiwm pob modurwr – sef cyfanswm o fwy na £400m y flwyddyn mewn taliadau premiwm ychwanegol. Yr amcangyfrif yw bod gyrwyr di-yswiriant, a'r rhai na ellir dod o hyd iddynt, yn lladd 160 o bobl ac yn anafu 23,000 bob blwyddyn.

Eisoes, mae'r Llywodraeth wedi rhoi pwerau i'r heddlu i gipio a dinistrio cerbydau sy'n cael eu gyrru heb yswiriant, ynghyd â gwell mynediad iddynt i'r Gronfa Ddata Yswiriant Moduron i gynyddu eu gallu i ddod o hyd i gerbydau di-yswiriant drwy ddefnyddio offer Adnabod Platiau Rhif yn Awtomatig (ANPR). Cipiodd yr heddlu ryw 150,000 o gerbydau yn 2007 – dros 400 y dydd.

Y llynedd, cyflwynwyd trosedd newydd, sef achosi marwolaeth wrth yrru heb drwydded, wedi'ch anghymhwyso neu heb yswiriant. Caiff y rheoliadau eu llunio cyn hir a disgwylir i'r pwerau ddod i rym yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Gyrru dan ddylanwad cyffuriau – Chwalu'r Chwedlau



Ar Awst 17, 2009 fe lansiodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, yr Arglwydd Adonis, yr ymgyrch deledu genedlaethol gyntaf i daclo gyrru dan ddylanwad cyffuriau.

Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbyseb deledu, nawdd radio, poster, noddi gwyliau a hysbysebu ar-lein, a nod y cyfan yw tynnu sylw at realiti a chanlyniadau cyfreithiol gyrru dan ddylanwad cyffuriau.

Nod pellach yw chwalu'r chwedlau ynghylch gyrru dan ddylanwad cyffuriau. Mae llawer o bobl yn credu, ar gam, na all yr heddlu ganfod gyrwyr sydd wedi cymryd cyffuriau. Gall yr heddlu ddal gyrwyr o'r fath - ac fe wnânt hynny.

Thema'r hysbyseb deledu yw 'llygaid' ac mae'n dangos yr effeithiau anwirfoddol a gaiff gwahanol gyffuriau ar y llygaid, a pha mor amlwg ydyn nhw i'r heddlu.

Gallwch weld yr hysbyseb ar [wefan](#) yr Adran Ddrafnidiaeth.

Cynllun Graddio Seddau Plant

Mae busnes Tystysgrifo a Sicrwydd y TRL wedi lansio'i gynllun newydd i roi hyd at 5 Seren i systemau sy'n cadw ac yn dal plant yn ddiogel yn eu seddau. Drwyddo, caiff rhieni asesiad trwyadl ac annibynnol o bob system sydd wedi'i phrofi er mwyn iddynt allu cymharu a phenderfynu'n wybodus ynghylch pa gynnyrch sy'n ateb eu gofynion hwy orau.



Bydd cynllun annibynnol y TRL, a gefnogir gan y manwerthwyr a'r AA, yn cyflwyno gwybodaeth glir i'r farchnad am berfformiad cynhyrchion unigol o ran eu diogelwch a hwylustod eu defnyddio. Seilir system y sêr ar gyfres o brofion i asesu eu perfformiad mewn gwrthdrawiadau o'r tu blaen ac o'r ochr. I ychwanegu at eglurder y system, bydd gwybodaeth ar gael am berfformiad pob un o'r cynhyrchion.

Gwerth a Manteision y Cynllun

Yn ogystal ag arbed bywydau a chwtogi ar nifer yr anafiadau difrifol, mae i gynllun y TRL i raddio systemau seddau plant werth a manteision i bawb.

- **Y Cynhyrchwyr** - cânt gyfleuster hynod gost-effeithiol i wahaniaethu'r farchnad y tu hwnt i'r pris, a meincnodir eu cynhyrchion yn erbyn rhai eu cystadleuwyr. Cânt wybodaeth am briodoleddau allweddol eu cynhyrchion, felly, y gallant ei chyflwyno yn y man gwerthu.
- **Y Defnyddwyr** - y fantais iddynt hwy fydd gallu cael gafael yn rhwydd ar wybodaeth annibynnol i'w helpu i ddewis y cynnyrch gorau sy'n bodloni eu gofynion penodol o ran ansawdd, hwylustod ei ddefnyddio a'i effeithiolrwydd mewn gwrthdrawiad.
- **Y Manwerthwyr** - bydd modd iddynt ddewis cymysgedd o offer ar sail mesuriadau o'u perfformiad a'u cost ar sail barn annibynnol am gynhyrchion, gan ennyn ffydd yn honiadau'r cynhyrchwyr am eu perfformiad.

Gall pawb fod yn fwy ffyddiog am fod dyfarniad sefydliad arbenigol, diduedd ac annibynnol ac wedi'i seilio ar safonau hysbys.



Sut mae'r Cynllun yn Gweithio

Mae'r system yn glir ac wedi'i seilio ar brotocolau profi cadarn sydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir ennill hyd at 5 Seren ar sail diogelwch systemau seddau plant mewn gwrthdrawiad, a hwylustod eu defnyddio. Gellir dangos nifer y sêr ar y cynnyrch, y defnyddiau pacio, y deunydd cyhoeddusrwydd, catalogau a gwefannau.

Pennir gofynion y Cynllun ym Manyleb yr Ymchwil i Drafnidiaeth, TRS1002:2009. Bydd honno'n galw ar gyfres bwrpasol o brofion ac asesiadau sydd wedi'u seilio'n bennaf ar brotocolau'r NPACS (Y Rhaglen Newydd i Asesu Systemau Seddau Plant) a gyhoeddwyd gan y TRL ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth.

Y Rhestr o Raddiadau

Caiff pob cynnyrch sydd wedi'i brofi dystysgrif sy'n dangos ei raddiadau a'i sgorau. Gellir defnyddio'r dystysgrif yn y man gwerthu, mewn siop neu ar-lein at ddibenion chwilio a chymharu. Bydd yr holl raddiadau a chopïau o dystysgrifau'r cynhyrchion hefyd ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan y TRL, www.trl.co.uk

http://www.trl.co.uk/news/latest_news/new_rating_system_for_child_seats.htm

Gwrthdrawiadau sy'n cynnwys Gyrwyr Hŷn



Mewn adroddiad y mae'r Adran Drafnidiaeth newydd ei gyhoeddi ceir dadansoddiad manwl o wrthdrawiadau sy'n cynnwys gyrwyr hŷn dros 60 oed.

Adolygwyd sampl o fwy na 2,000 o ffeiliau tri heddlu yng Nghanolbarth Lloegr a chreu cronfa ddata sy'n cynnwys prif nodweddion gwrthrychol, crynodeb o'r hanes, braslun, a rhestr o'r ffactorau esboniadol. Mae'r dadansoddiad yn nodi'r mathau o wrthdrawiadau y mae gyrwyr hŷn wedi bod ynddynt, a rhoir sylw arbennig i'r sefyllfaoedd a'r tasgau gyrru sydd debycaf o achosi trafferth iddynt.

[Cliciwch yma i weld yr adroddiad llawn](#)

Children In and Around Cars

Questionnaire ▶

Help us to develop the best advice...



Nod ymchwil newydd sydd wedi'i lansio gan RoSPA yw gostwng nifer y plant a gaiff eu lladd neu eu hanafu pan gânt eu taro gan gerbydau ar ddreifiau.

Nodwyd amryw o ddigwyddiadau a awgrymai fod llawn cymaint o blant bach yn cael eu lladd gan gerbydau ar ddreifiau ag mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd. Mae RoSPA wrthi'n gwneud [arolwg](#) ymhlith rheini, rhieni rhieni, gwarcheidwaid a gofalfyr plant hyd at saith oed i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau lle mae plant wedi'u hanafu neu eu lladd ar ddreifiau.

Dechreuodd RoSPA ymchwilio i ddiogelwch plant o gwmpas ceir ar ôl clywed gan deulu Iain Goodwill, a fu farw'n 17 mis oed yn 2007 ar ôl cael ei daro gan gar ar ddreif ei gartref. Mae teulu Iain yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r broblem ac wedi sefydlu [Ymddiriedolaeth Iain Goodwill](#) yn y gobaith y gwnaiff atal pobl eraill rhag wynebu trasiedi debyg.

Yn 2007, lladdwyd tri phlentyn rhwng blwydd a dwyflwydd oed tra oeddent yn teithio mewn ceir ar ffordd Prydain. Dangosodd dadansoddiad o adroddiadau yn y wasg fod tri phlentyn o'r un grŵp oedran wedi'u lladd gan gerbydau ar ddreifiau.

Mae toriadau o'r wasg yn 2008 yn dangos bod o leiaf wyth o blant hyd at saith oed wedi marw ar ôl cael eu taro gan gerbydau ar ddreifiau neu mewn mannau eraill ar dir eu cartref.

Dydy arolwg RoSPA ddim yn gofyn am enwau, ac ynddo cewch gwestiynau am yr adegau y mae plant wedi dilyn oedolion – yn ddiarwybod iddynt – allan i ddreifiau a phan mae cerbydau wedi symud ar ddreifiau heb i oedolion wybod bod plant gerllaw. [<http://www.rospace.com/childrenincars/>](http://www.rospace.com/childrenincars/)

Bydd yr arolwg ar agor tan Ragfyr 18fed 2009 ac fe gyhoeddir adroddiad interim arno ar Awst 31ain 2009.

Llawlyfr ynghylch Gyrru wrth eich Gwaith

Gyrru yw gweithgarwch gwaith peryclaf y mwyafrif o bobl. Bob wythnos, caiff rhyw 20 o bobl eu lladd a 250 eu hanafu mewn gwrthdrawiadau sy'n cynnwys rhywun sy'n gyrru, yn reidio neu'n defnyddio'r ffordd fel arall at ddibenion gwaith.

Dywed yr HSE fod y gyfraith ynghylch iechyd a diogelwch yn gymwys i weithgareddau gwaith ar y ffordd lawn cymaint ag i bob gweithgarwch gwaith, ac y dylid rheoli'r risgiau'n effeithiol o fewn system iechyd a diogelwch.

Mae dyletswydd ar gyflogwyr, felly, i ofalu am eu gyrrwyr. Un ffordd o wneud hynny yw sicrhau bod gan yrwyr y wybodaeth berthnasol wrth lawn ac mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall.

Am fod cymaint o alw amdano, mae RoSPA wedi diweddarau ac wedi cynhyrchu llawlyfr newydd sbon, y 'Driving for Work Handbook'. Mae'n llyfryn cryno sy'n ddelfrydol fel cyfrwng i addysgu gyrrwyr newydd a gyrrwyr profiadol, a chânt ynddo'r holl wybodaeth y bydd ar yrwr ei hangen i fod yn ddiogel ar y ffordd.

Ymhlith y pynciau ynddo mae:

- Cynllunio'ch taith
- Gwiriadau cyn gyrru
- Ffitrwydd i yrru
- Cynghorion ynghylch gyrru'n ddiogel
- Gyrru ar draffyrdd
- Gyrru yn y nos
- Tywydd gwael
- Damweiniau, cerbydau'n torri, ac argyfyngau

www.rospace.com





Comisiwn Ewropeaidd wedi galw am y tro olaf ar holl wledydd yr UE i gyflymu'r gweithredu gwirfoddol ar y dechnoleg 'E-alw' newydd a allai arbed hyd at 2500 o fywydau'r flwyddyn. Os bydd car mewn gwrthdrawiad difrifol, bydd y system e-Alw'n deialu 112, rhif argyfwng Ewrop, ac yn rhoi gwybod i'r gwasanaeth argyfwng agosaf am leoliad y car. Gall hyn haneru'r amser ymateb mewn argyfwng ac achub bywydau pobl na wyddant, neu na allant ddweud, ble y maent.

Am y tro, cam gwirfoddol yw hi i awdurdodau cyhoeddus, cwmnïau ceir a gweithredwyr ffonau symudol ddefnyddio e-Alw. Dydy'r system ddim ar waith yn unrhyw un o wledydd yr UE hyd yn hyn. Os na wneir cryn gynnydd o ran cyflwyno'r system erbyn diwedd 2009, rhybuddia'r Comisiwn mewn dogfen bolisi, gallai gynnig mesurau rheoleiddio i sicrhau darparu'r dechnoleg werthfawr hon ledled Ewrop cyn gynted â phosibl. Yn 2008, achosodd dros 1.2 miliwn o ddamweiniau ar ffyrdd Ewrop ryw 39000 o farwolaethau a mwy nag 1.7 miliwn o anafiadau.

"Mae gormod o bobl yn dal i farw ar ffyrdd Ewrop. Bob wythnos, bydda i'n clywed am ddamweiniau ar y ffyrdd lle byddai e-Alw wedi helpu. Mae'n bryd i'r Aelod-Wladwriaethau a'r diwydiant droi gair yn weithred," meddai Viviane Reding, Comisiynydd yr UE dros Wybodaeth, Cymdeithas a'r Cyfryngau. "Ar lefel yr Undeb, diolch yn arbennig i gefnogaeth gyson y Senedd Ewropeaidd, rydyn ni wedi gwneud ein rhan ni o'r gwaith: mae'r holl safonau creiddiol ar gyfer gwneud e-Alw yn bosibl yn eu lle. Ddylai Ewropeaidd ddim gorfod aros eiliad yn rhagor am system a allai achub eu bywydau dim ond am fod eu llywodraeth yn methu gweithredu. Hoffwn weld y ceir e-Alw cyntaf ar y ffyrdd y flwyddyn nesaf. Os na fydd y cyflwyno ar e-Alw'n cyflymu, mae'r Comisiwn yn barod i bennu rheolau clir i orfodi llywodraethau, y diwydiant a'r gwasanaethau brys i ymateb."

Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno dogfen bolisi ac ynddi strategaeth ar gyfer cyflwyno system fforddiadwy i'w rhoi mewn ceir i wneud galwadau argyfwng, a hynny ym mhob car newydd ledled Ewrop erbyn 2014, gan ddechrau y flwyddyn nesaf. Byddai'r mesurau a gynigir gan y Comisiwn yn sicrhau bod e-Alw'n gweithio yn holl wledydd yr UE ac ym mhob car, pwy bynnag sy'n ei gynhyrchu ac ym mha wlad bynnag y'i cynhyrwyd.

Wrth weithredu e-Alw, bydd angen i'r diwydiannau ceir a thelathrebu gydweithredu'n llawn. Rhaid hefyd i bob gweinyddiaeth genedlaethol yn holl wledydd yr UE sicrhau bod gan eu gwasanaethau brys yr offer i ymdrin â galwadau e-Alw.

Bydd damweiniau ar y ffyrdd yn costio dros €160 biliwn y flwyddyn i economi'r UE. Gallai gosod y system e-Alw ym mhob car yn yr UE arbed €26 biliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y system yn costio llai na €100 i bob car.

Cewch wybod rhagor am e-Alw, gan gynnwys clip fideo amdani, [yma](#)

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2009 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA

sbaker@rospa.com

02920 250 600

